Disgrifiad Swydd

| | |
|---|---|
| Teitl y Swydd | Ymchwilydd Treialon Clinigol Canser |
| Ysgol/Adran/Coleg | Is-adran Canser a Geneteg, Ysgol Meddygaeth, Coleg y Gwyddorau Biofeddygol a Bywyd |
| Gradd y Swydd | Ymgynghorydd clinigol/uwch glinigwr arall |
| Llwybr Gyrfaol | Academaidd |
| Swydd yn Atebol i | Yr Athro Mererid Evans |
| Yn Gyfrifol am y Swyddi Canlynol | Amherthnasol |

## Prif Swyddogaeth

Mae'r swydd ran-amser, tymor penodol hon (ar gael am hyd at uchafswm o ddeuddydd yr wythnos hyd at ddiwedd mis Chwefror 2028) yn cael ei chreu i alluogi clinigwyr i ddatblygu ac arwain (+/- cyflwyno) gwaith ymchwil sy'n gysylltiedig â threialon clinigol canser.

## Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau

- Ymgymryd â datblygu (cyflawni +/-) gweithgareddau sy'n gysylltiedig â threialon clinigol canser academaidd a/neu ddiwydiant a arweinir o Gymru.
- Ffurfio cysylltiadau yn amgylchedd ymchwil Cymru, er enghraifft, cysylltu ag ymchwilwyr academaidd yn themâu CReST i ddatblygu treialon ac unrhyw brosiectau trosi cysylltiedig, ymuno â Rhwydwaith ymchwilwyr ar ddechrau eu gyrfa neu ar ganol eu gyrfa Canolfan Ymchwil Canser Cymru (WCRC), neu weithio gyda Chanolfan Ymchwil Canser Caerdydd ar dreialon a gefnogir gan ffynonellau cyllid masnachol.
- Creu allbynnau o'r gwaith hwn a all gynnwys: cyflwyno ceisiadau am gyllid ymchwil lle mae'r unigolyn yn brif ymchwilydd neu'n gyd-ymgeisydd; recriwtio cleifion cysylltiedig i dreialon clinigol canser dan arweiniad Cymru; cyflwyniadau methodoleg neu ganlyniadau; a chyflwyno cyhoeddiadau a adolygwyd gan gymheiriaid y mae'r unigolyn yn awdur arnynt.
- Rhoi diweddariadau ar weithgarwch ac allbynnau er mwyn adrodd bob chwarter ac ar ddiwedd y flwyddyn o ran Canolfan Ymchwil Canser Cymru i'r ariannwr. Os oes angen, mynd i gyfarfodydd grŵp arweinyddiaeth Canolfan Ymchwil Canser Cymru pan fo angen i roi diweddariad ar y cynnydd ar lafar.
- Cyflawni unrhyw ddyletswyddau eraill nad ydynt wedi'u nodi uchod ond sy'n cyd-fynd â gofynion y swydd

## Manyleb yr Unigolyn

### Meini Prawf Hanfodol

<u>Cymwysterau ac Addysg</u>

1. Clinigwr sy'n cael ei gyflogi gan GIG Cymru sy'n:
   - ymgynghorydd mewn oncoleg, llawdriniaeth a/neu ddisgyblaethau eraill sy'n gysylltiedig â chanser megis gofal lliniarol, practis cyffredinol, ac ati. NEU
   - uwch aelod o grwpiau proffesiynol eraill sy'n gweithio ym maes canser, gan gynnwys nyrsys, gweithwyr iechyd proffesiynol perthynol, gwyddonwyr clinigol, neu eraill sydd mewn sefyllfa i arwain treialon canser/ymchwil drosi o Gymru.
2. Yn gweithio mewn arbenigedd canser; neu atal canser, canfod, rhoi diagnosis neu gymorth i gleifion canser yn rhan sylweddol o'u rôl GIG.

<u>Gwybodaeth, Sgiliau a Phrofiad</u>

3. Cofnod o weithio ar astudiaethau ymchwil clinigol, fel prif ymchwilydd a/neu recriwtiwr.

<u>Cyfathrebu a Gweithio'n Rhan o Dîm</u>

4. Rheoli prosiectau'n effeithiol, rheoli amser a sgiliau cyfathrebu.
5. Profiad o feithrin perthnasoedd gwaith cynhyrchiol gydag ymchwilwyr eraill.

Meini Prawf Dymunol

1. Gradd ymchwil uwch.
2. Awdur cyhoeddiadau ymchwil wedi'u hadolygu gan gymheiriaid
3. Profiad o feithrin perthnasoedd gwaith cynhyrchiol gyda staff mewn uned treialon clinigol neu seilweithiau ymchwil clinigol eraill.
4. Profiad o ddatblygu a chyflwyno ceisiadau am gyllid ymchwil.

Gwybodaeth Ychwanegol

Disgwylir y bydd deiliad y swydd yn cyflawni'r rôl hon yn eu man gwaith arferol, gan deithio o bryd i'w gilydd i gyfarfodydd yng Nghymru neu gyfarfodydd yn y DU yn ôl yr angen.